

COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU
19.00 nos Fawrth Tachwedd 30ain 2021

Presennol :- Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Nia Jeffreys, Ian Wyn Jones, Gwilym Jones, Aled Griffith
Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr:- Jason Humphreys

1. Ymddiheuriadau :- Cyng Dr Simon Brooks

2. Cae Pawb - Trafod problem rhentu mwy nag un rhandir a sub-letio

Gadawodd y Cyng Gwilym Jones y cyfarfod am fod ei enw ar restr aros Cae Pawb.

Roedd y Cynghorwyr eisoes wedi derbyn y wybodaeth ganlynol :-

- Michael Wainwright wedi ymddiswyddo o fod yn yn Gadeirydd- Mr Edward Jones wedi ymgymryd â'r swydd, Mrs Gwladys Roberts yn Drysorydd a Hannah Lodge yn Ysgrifennydd.
- Plot 42 wedi derbyn 2 rybudd am beidio cynnal a chadw'r rhandir ac wedi diddymu'r cytundeb. Tenantiaid newydd am ymgymryd â'r gwaith o wella cyflwr y plot.
- Plotiau 41, 48, 51, 30, 6(b) wedi derbyn yr un rybudd. Pawb ond Plot 6(b) wedi ymateb ac wedi gweithredu. Methu cysylltu efo tenant 6(b) – poeni ei bod wedi gadael yr ardal.
- Y Cadeirydd , Mr Edward Jones efo 2 plot. Am drosglwyddo plot 34 i Hannah Lodge a chadw gafael ar plot 35. Hithau am adael plot 19b. Tenant newydd Kara Williams am ymgymryd â hwnnw.
- Oherwydd cwynion fod unigolion yn rhentu mwy nag un rhandir ac yn “sub-letio” darnau o'u rhandiroedd mae Pwyllgor Cae Pawb yn awyddus i newid y rheolau i wahardd rhentu mwy nag un plot a'r arfer o “sub-letio”.
- Posibl felly i newid rheol 1 o :-

“1.Cyfrifoldeb yr unigolyn a enwir uchod yw'r plot y cyfeirir ato gyda rhif penodol.”
i

“ 1.Cyfrifoldeb yr unigolyn a enwir uchod **yn unig** yw'r **un** plot y cyfeirir ato gyda rhif penodol **ac ni chaniateir gosod y tir i unrhyw un arall.**”

Trafodwyd y broblem o Is-denantiaeth ymysg rhai o denantiaid Cae Pawb a nodwyd nad oedd gan y Cyngor Tref y pwerau i erlyn tenantiaid sydd yn torri'r rheol gan fod y broblem yn un hanesyddol ac yn arfer sydd wedi cael ei ganiatau yn y gorffennol.

Penderfynwyd :-

- diwygio geiriad Rheol 1 fel uchod
- gwneud y rheol yn hysbys i bob tenant newydd i Gae Pawb a'i gweithredu o fis Ebrill 2022
- y Clerc i gyhoeddi'r newid ar dudalen Facebook Cae Pawb yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

Dychwelodd y Cyng Gwilym Jones i'r drafodaeth

3. Cae Bodawen

Offer chwarae

Penderfynwyd :- Gweithredu ar argymhellion G.L.Jones a'r Clerc i ofyn i Alan G Jones gario allan y gwaith trwsio a diogelu'r offer chwarae.

Arwydd newydd

Penderfynwyd :- Gweithredu ar argymhellion y Gweithgor Datblygu i osod arwydd newydd wrth y fynedfa gan ddefnyddio un polyn o'r arwydd presennol a thynnu'r hen arwydd yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

4. Bryn Coffa

Cytunwyd mai da o beth oedd fod y Cyngor Tref wedi trefnu i dorri'r coed ynn peryglus ar ôl sylweddoli'r difrod a gafwyd wedi storm Arwen dros y penwythnos. Cytunodd y Clerc i fynd yno i sicrhau bod y blaendorchau yn parhau yn eu lle ac i glrio'r safle yn y flwyddyn newydd.

5. Llwybrau

Trafodwyd cytundebau torri gwair 2022-23. Mynegwyd bodlonrwydd cyffredinol ynglyn â gwaith Cyngor Gwynedd eleni ar wahân i lwybr y Cob Crwn sydd angen ei dorri'n amlach. Nodwyd fod y cwmni sydd yn torri caeau Ysgol Eifionydd yn gwneud gwaith taclus a chytunodd y Clerc i ofyn iddynt am amcanbris ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn cymharu prisiau efo Cyngor Gwynedd. Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llawn ym mis Rhagfyr.

6. Llochesi Bws

Roedd y Cyngorwyr wedi derbyn copïau o ebyst yn amlinellu trafodaethau rhwng Cyng Aled Griffith a Bedwyr Lloyd Williams ynglyn â llochesi bws Tremadog. Cafwyd diweddariad gan Cyng Aled Griffith ar y sefyllfa yn nodi ei fodlonrwydd gydag ymateb Bedwyr Lloyd Williams a'r pwyntiau canlynol :-

- Y caiff y gwaith o gywiro gwaith gosod Kassel kerbs wrth loches bws Stryd yr Eglwys y tu allan i'r Nyrseri ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf
- Y bydd Kassel Kerbs yn cael eu gosod o flaen siop Spar yn y flwyddyn newydd.
- **Os bydd arian yn caniatáu**, y gosodir lloches bws tu allan i Isgraig a gyferbyn ag Ysgol y Gorlan wrth fynedfa Lôn Haearn Bach.

Penderfynwyd :- derbyn adroddiad Cyng Aled Griffith yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths

7. Cerflun Mr. Maddocks

Nodwyd fod y cerflun yn dal i sefyll er gwaetha prysurdeb adeiladu'r Premier Inn gerllaw ond fod ynddo hollt ers rhai blynyddoedd. Holwyd os oedd posib' rhoi arwydd neu QR code arno er mwyn egluro ei arwyddocâd. Cytunwyd y dylid rhoi'r mater ar raglen cyfarfod nesaf o'r Gweithgor Datblygu.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.30.

Marian Roberts
1.12.21